Coleg y Cymoedd

Dod yn Llywodraethwr

Cyflwyniad gan y Cadeirydd

Diolch am fynegi diddordeb mewn ymuno â Chorfforaeth Coleg y Cymoedd fel Aelod/Llywodraethwr[1].

Fel Llywodraethwr Coleg, gall eich mewnwelediad, eich profiad a'ch syniadau ehangu persbectif ein cyfarfodydd. Rydyn ni'n awyddus i gynnwys pobl o bob oed a chefndir diwylliannol. Gydag ymrwymiad cryf i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, rydyn ni am annog ceisiadau gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sef menywod, pobl LHDT+ a lleiafrifoedd ethnig.

Efallai fod gennych brofiad o fyd busnes, neu waith cymunedol neu gymdeithasol gydag elusennau, arfer ariannol neu gyfreithiol, neu gallech hyd yn oed fod yn entrepreneur. Gorau po fwyaf yw eich maes galwedigaethol a'ch profiad diwylliannol.

Swydd wirfoddol heb dâl yw hon, er y gall aelodau hawlio costau teithio a chynhaliaeth sy'n gysylltiedig â mynychu cyfarfodydd, digwyddiadau datblygu a chynadleddau.

Mae 20 aelod gan y Bwrdd, ac mae'n cynnwys dau aelod o staff, dau aelod sy'n fyfyrwyr a dau unigolyn o'r ddau awdurdod lleol mae'r Coleg wedi'i lleoli ynddynt. Mae Pennaeth y Coleg hefyd yn Llywodraethwr. Ar hyn o bryd mae swyddi gwag ar gyfer llywodraethwyr llawn ac ar gyfer aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor.

Cynhelir cyfarfodydd bedair gwaith y flwyddyn academaidd, fel arfer ar nos Lun, ac maen nhw'n cylchredeg o amgylch pedwar campws y Coleg. Mae nifer o bwyllgorau hefyd yn bodoli i gefnogi gwaith Bwrdd y Gorfforaeth, gyda phob un yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn.

Os byddwch yn llwyddiannus yn eich cais, byddwch yn mwynhau bod yn rhan o dîm sy'n cefnogi'r Coleg tra ar yr un pryd yn craffu ac yn herio penderfyniadau strategol allweddol.

Pob lwc!

[1] Defnyddir y termau aelod a llywodraethwr yn gyfnewidiol.

Ynglŷn â Choleg y Cymoedd

Cafodd Coleg y Cymoedd ei ffurfio yn 2013, yn dilyn uno Coleg Ystrad Mynach a Choleg Morgannwg. Mae dros 10,000 o ddysgwyr yn astudio yng Ngholeg y Cymoedd bob blwyddyn, gyda safleoedd yn Aberdâr, Nantgarw, y Rhondda (Llwynypïa) ac Ystrad Mynach. Mae'r Coleg yn cynnig ystod eang o gyrsiau llawn amser a rhan amser o Lefel Mynediad i Radd mewn dros 15 o feysydd cwricwlwm. Gan weithio mewn partneriaeth â mwy na 800 o gyflogwyr, mae tîm Gwasanaethau Busnes y Coleg hefyd yn cynnig ystod eang o becynnau Prentisiaeth a Hyfforddiant Masnachol Pwrpasol.

Mae'r Coleg wedi buddsoddi'n sylweddol yn ei gyfleusterau dros y blynyddoedd diwethaf, gyda phrosiectau amlwg yn cynnwys adeilad Campws Nantgarw (campws llwyddiannus gwerth £40 miliwn), Campws Aberdâr (campws gwerth £22 miliwn a agorwyd yn 2017), campws diweddaraf y Cyfleusterau Hyfforddiant Rheilffyrdd a Cherbydau Modur.

Ym mis Tachwedd 2017, bu'r Coleg yn destun arolygiad gan Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, a barnwyd ei fod yn ddigonol o ran perfformiad presennol gyda rhagolygon da o ran gwella.

Cenhadaeth: *Gyda'n gilydd rydyn ni'n creu eich llwyddiant i'r dyfodol*

Gweledigaeth: *Ein gweledigaeth yw cael ein cydnabod fel coleg eithriadol*

Gwerthoedd: Mae cymuned y coleg yn gweithredu yn unol â gwerthoedd y coleg. Mae gwerthoedd y coleg wrth wraidd popeth a wnawn, ac maen nhw'n llywio'r ffordd rydyn ni'n gweithredu ar bob lefel. Mae pobl yn gwneud penderfyniadau ar sail gwerthoedd.

Mae cymuned ein coleg:
Yn ddilys
Yn gefnogol
Yn canolbwyntio ar bobl
Yn gynhwysol
Yn gyfrifol
Wedi'i grymuso

Cyfrifoldebau Bwrdd y Gorfforaeth

Fel aelodau o Fwrdd y Gorfforaeth, mae Llywodraethwyr yn gyfrifol am

- benderfynu ar genhadaeth a chymeriad addysgol y Coleg a goruchwylio ei weithgareddau;
- sicrhau diddyledrwydd y Coleg a diogelu ei asedau;
- cymeradwyo amcangyfrifon incwm a gwariant blynyddol;
- goruchwylio'r gwaith o benodi, graddio, arfarnu, atal dros dro, diswyddo a phenderfynu ar gyflog ac amodau gwasanaeth deiliaid uwch swyddi a'r Swyddog Llywodraethu[2];
- pennu fframwaith ar gyfer tâl ac amodau yr holl staff eraill;
- sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer goruchwylio gwaith academaidd y Coleg.

Er mwyn cyflawni eu swydd yn effeithiol, disgwylir i lywodraethwyr

- fynychu cyfarfodydd Bwrdd y Gorfforaeth a gwasanaethu ar o leiaf un Pwyllgor o'r Gorfforaeth;
- bod ar gael ar gyfer cyfarfodydd ychwanegol fel Diwrnodau i Ffwrdd, apeliadau, gweithdai'r Pennaeth;
- mynychu digwyddiadau'r Coleg fel seremonïau gwobrwyo;
- gweithredu fel llysgennad ar gyfer y Coleg mewn lleoliadau lleol, rhanbarthol ac, ar adegau, yn genedlaethol os oes angen;
- mynychu rhaglenni hyfforddi a datblygu perthnasol ar gyfer Llywodraethwyr.

[2] Mae'r Swyddog Llywodraethu yn annibynnol ar reolaeth y Coleg ac yn rhoi cyngor, arweiniad a chymorth i Fwrdd y Gorfforaeth.

Mae gofyn i lywodraethwyr hefyd

- gydymffurfio â Chodau Ymddygiad a Moeseg y Gorfforaeth, cwblhau'r Gofrestr Buddiannau flynyddol a bodloni unrhyw ofynion statudol a osodir ar aelodau'r Gorfforaeth;
- datgan eu bod yn gymwys i fod yn Llywodraethwr;
- cwblhau gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Rhinweddau Personol sydd eu hangen

- diddordeb cryf mewn addysg bellach a hyfforddiant a phenderfyniad i wella llwyddiant myfyrwyr;
- gwybodaeth am gymuned y Coleg a'i gymeriad economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol;
- y gallu i ddeall materion cymhleth sy'n ymwneud â pholisi addysg a hyfforddiant cyhoeddus, cynllunio'r Coleg, a pherfformiad y Coleg;
- uchelgais i Goleg y Cymoedd;
- y gallu i ffurfio cydberthynas waith effeithiol gyda chyd-Lywodraethwyr a myfyrwyr, staff a rhanddeiliaid y Coleg;
- y gallu i graffu, herio a chefnogi gwaith uwch staff y Coleg;
- y gallu i gyfrannu at Fwrdd Corfforaeth sy'n dysgu drwy esiampl;
- awydd i weithio'n galed fel Llywodraethwr gwirfoddol er budd Coleg y Cymoedd;
- parodrwydd i ymddwyn yn onest, yn agored a chydag uniondeb.

Unigolion anghymwys i fod yn Aelodau

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd sydd â diddordeb gadarnhau eu bod yn gymwys i fod yn aelod, gan fod rhai unigolion yn anghymwys i fod yn aelodau o'r Gorfforaeth. Caiff Bwrdd y Gorfforaeth hefyd wrthod penodi unigolyn os yw wedi'i fodloni nad yw'r unigolyn hwnnw, yn ychwanegol at y meini prawf a bennir yn yr Offeryn a'r Erthyglau Llywodraethu, yn gymwys i ddod yn llywodraethwr os ydyn nhw:

- yn anaddas neu yn methu â chyflawni swyddogaethau fel aelod;
- wedi'u gwahardd rhag bod yn ymddiriedolwr elusen yn unol â Deddf Elusennau 2011;
- yn peri risg sylweddol i iechyd, diogelwch neu les plant neu oedolion agored i niwed;
- wedi cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n niweidiol i enw da ac uniondeb y Coleg;
- yn achos unigolyn sydd i'w benodi'n aelod busnes, awdurdod lleol, cymunedol neu gyfetholedig, bod y Pwyllgor Chwilio wedi cynghori na ddylai'r unigolyn gael ei benodi.

Y Broses Ymgeisio

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd sydd â diddordeb gyflwyno Curriculum Vitae (CV) ynghyd â ffurflen gais yn manylu ar eu gallu i fodloni gofynion y Gorfforaeth. Mae hefyd angen llenwi ffurflenni cymhwysedd ar gyfer aelodaeth a monitro cyfle cyfartal, ynghyd â holiadur sgiliau, cod ymddygiad, cod moeseg a datganiad o unrhyw wrthdaro buddiannau posib.

Bydd y Pwyllgor Chwilio yn adolygu ceisiadau a dderbynnir yn erbyn y fanyleb uchod a'r archwiliad o sgiliau a phrofiad perthnasol yr aelodau ac yn paratoi rhestr fer.

Gall yr ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer gael eu gwahodd am gyfweliad anffurfiol gyda'r Pwyllgor Chwilio. Mae'r cyfweliad yn broses ddwy ffordd i'r ddwy ochr ddod i adnabod ei gilydd a phenderfynu a allan nhw weithio mewn partneriaeth i gyflawni cyfrifoldebau'r Gorfforaeth, a sicrhau y gellir gwireddu'r ymrwymiadau amser angenrheidiol.

Bydd y Pwyllgor Chwilio wedyn yn cytuno ar ei argymhellion ac yn eu cyflwyno i Fwrdd y Gorfforaeth. Efallai y bydd rhai ymgeiswyr yn cael eu hargymell ar gyfer aelodaeth gyfetholedig o Bwyllgor yn unig, yn hytrach nag fel aelodau llawn, oherwydd nifer y swyddi gwag a/neu sgiliau, profiad a gwybodaeth yr ymgeiswyr.

Bydd hyd y penodiad yn ôl disgresiwn Bwrdd y Gorfforaeth, ond tymor swydd arferol yr aelodau yw pedair blynedd. Gellir penodi aelodau cyfetholedig am gyfnod byrrach, yn dibynnu ar ofynion y Pwyllgor perthnasol o ran sgiliau a phrofiad.

Bydd y Swyddog Llywodraethu yn cysylltu â phob ymgeisydd unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud.

Jennifer Owen
Swyddog Llywodraethu
Coleg y Cymoedd
Heol y Coleg
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QY
jennifer.owen@cymoedd.ac.uk